# Bil Ieithoedd Swyddogol
01/11/12

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Hydref, pan wnaethoch ofyn,

*Ga i gopi o'r asesiad a wnaed o effaith gost pasio gwelliant rhif 9 yn enw Aled Roberts i'r Bil Ieithoedd Swyddogol?*
*Mae Rhodri Glyn Thomas wedi cyfeirio ato yn ei sylwadau yn y stori hon:*
*http://www.golwg360.com/newyddion/cymru/87588-pasio-bil-ieithoedd-y-cynulliad-yn-ddigwyddiad-hanesyddol*

Defnyddiwyd y wybodaeth ganlynol i asesu'r gost o basio gwelliant 9 i'r Bil Ieithoedd Swyddogol. (Er gwybodaeth – nifer y geiriau y mae angen eu cyfieithu ym mhob Cofnod yw tua 37,000).

**Ffigurau ar gyfer cyfieithu'r Cofnod o fewn pum niwrnod**

Amcangyfrifir y gost gan ddefnyddio'r gyfradd gyfredol o £50 fesul 1,000 o eiriau a gyfieithir gan ddefnyddio cyfieithu peirianyddol gydag ôl-olygu.

- Felly, y gost o gyfieithu trafodion y Cyfarfod Llawn o'r Saesneg i'r Gymraeg fyddai £50 x 37 = £1,850.

- Y gost o gyfieithu 66 Cofnod y flwyddyn fyddai £122,100.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Ffigurau ar gyfer cyfieithu'r Cofnod dros nos**

Nid oes gennym gyfradd ar gyfer cyfieithu dros nos gan ddefnyddio cyfieithu peirianyddol gyda gwaith ôl-olygu. Felly, defnyddiwyd y gyfradd gyfredol sy'n daladwy ar gyfer cyfieithu testun o fewn 24 awr, sef £93 fesul 1,000 o eiriau. Mae'r gyfradd hon yn rhan o gontract yn ôl y gofyn y Cynulliad.

- Y gost o gyfieithu pob Cofnod o fewn cyfnod o 24 awr fyddai 93 x 37 = £3,441.

- Y gost o gyfieithu 66 Cofnod y flwyddyn fyddai £227,106. Felly, byddai'n costio £105,006 yn ychwanegol i gyhoeddi'r Cofnod yn y ddwy iaith ar yr un pryd (£227,106 - £122,100)

Rydych yn cyfeirio yn eich e-bost at ffigur o £600,000. Cyfeiriodd y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, Rhodri Glyn Thomas AC, at y ffigur hwn am y tro cyntaf fel amcangyfrif o gost cyfieithu cyfraniadau mewn trafodion pwyllgor o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn llythyr at Bethan Jenkins AC a gyhoeddwyd ar 12 Mehefin. Trafodwyd y gwasanaethau hyn yn ystod y ddadl ar welliant Aled Roberts ar 3 Hydref. Mae linc i'r adran berthnasol o'r Cofnod ar gael yma.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar ein gwefan yn http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Jonathan Thomas**
Swyddfa Rhaglen

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydym wedi cadw at y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn swyddogol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir manylion ynghylch egwyddorion cwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymddygiad ar Gwyno sydd ar gael ar y fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod os ydych am gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF